**Canllawiau – trefniadau consortiwm canolfannau ar gyfer blwyddyn academaidd 2023/24**

Lle mae ymgeiswyr o ganolfannau gwahanol yn cael eu haddysgu a'u hasesu gyda'i gilydd, ond yn cael eu cofrestru drwy'r ganolfan lle maent ar y gofrestr, **rhaid** i'r corff dyfarnu perthnasol gael gwybod bod y canolfannau'n dymuno cael eu trin fel consortiwm. **Rhaid** llenwi'r ffurflen Trefniadau Consortiwm Canolfannau ar-lein a'i chyflwyno i'r corff dyfarnu. Mae'r ffurflen hon i'w chael ar y Porth Gweinyddu Canolfannau (CAP). Gellir cyrchu'r Porth Gweinyddu Canolfannau gan ddefnyddio unrhyw un o safleoedd allrwyd diogel y cyrff dyfarnu.

**Rhaid** i drefniadau consortiwm canolfan fod yn berthnasol i'r holl ymgeiswyr a gofrestrir ar gyfer y gydran/uned berthnasol a asesir gan y ganolfan ar draws yr holl ganolfannau yn y consortiwm.

1. Ar gyfer pob cydran/uned a asesir gan y ganolfan, **rhaid** i ganolfannau safoni'r marciau'n fewnol ar draws y consortiwm.

2. **Rhaid** i'r canolfannau yn y consortiwm enwebu cydlynydd consortiwm a fydd yn cysylltu â'r corff/cyrff dyfarnu ar ran yr holl ganolfannau. Bydd angen i ganolfannau ddarparu manylion cyswllt y brif ganolfan a'r cydlynydd a rhestru'r holl ganolfannau o fewn y consortiwm a manylion y gydran/uned.

3. Bydd y corff dyfarnu'n dyrannu'r un cymedrolwr i bob canolfan yn y consortiwm a bydd yr ymgeiswyr yn cael eu trin fel un grŵp at bwrpasau cymedroli gwaith a asesir gan y ganolfan.

4. Cyn dechrau ar y broses gymedroli, bydd y corff dyfarnu yn rhoi gwybod i'r cymedrolwyr am unrhyw gonsortia yn eu dyraniad. Bydd sampl unigol yn cael ei ddewis, a fydd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r amrediad o farciau ar draws y consortiwm cyfan, gan gynnwys y marc uchaf ac isaf o fewn y consortiwm fel arfer.

5. Bydd pob canolfan yn y consortiwm yn cael yr adroddiad gan y cymedrolwr, yn ogystal ag adroddiad yn rhoi manylion dyraniad y marciau.

6. Os bydd consortiwm yn gwneud cais am adolygiad o'r cymedroli, **rhaid** i'r gwaith fod ar gael gan yr **holl ganolfannau** yn y consortiwm, gan mai'r sampl gwreiddiol sy'n cael ei adolygu.

7. **Rhaid** cadw gwaith yr ymgeiswyr o'r **holl ganolfannau** yn y consortiwm tan ar ôl y dyddiad cau ar gyfer adolygiad o ganlyniadau'r gyfres dan sylw neu tan ar ôl i unrhyw apêl, gamymddwyn neu unrhyw ymholiad arall am ganlyniadau gael ei gwblhau, pa bynnag un sydd hwyraf.

8. **Rhaid** i gydlynwyr consortiwm gyflwyno ffurflen ar-lein ar gyfer pob cyfres gan ddefnyddio CAP, sydd ar gael ar unrhyw un o safleoedd allrwyd diogel y cyrff dyfarnu, yn ddim hwyrach na:

   **1 Hydref 2023** ar gyfer cyfres arholiadau TGAU Tachwedd 2023

   **31 Ionawr 2024** ar gyfer cyfres arholiadau Mehefin 2024†

   I weld unrhyw fathau eraill o gymwysterau ac unrhyw gyfres arholiadau arall yn ystod y flwyddyn academaidd 2023/2024, edrychwch ar wefan y corff dyfarnu perthnasol.

   †Lle mae cydran/uned a asesir gan ganolfan yn destun ymweliad cymedroli, gweler gwefan y corff dyfarnu perthnasol. Bydd y corff dyfarnu yn cynghori'r ganolfan ynglŷn â'r dyddiad terfynol y mae'n rhaid cyflwyno'r ffurflen iddynt.

**Nid oes** angen llenwi'r ffurflen hon ar gyfer yr Arnodiad Sgiliau Ymarferol, Safon Uwch Bioleg, Cemeg, Daeareg a Ffiseg, ac eithrio yn achos canolfannau yng Nghymru sy'n cynnig manylebau CBAC.

©JCQ 2023 – Yn weithredol o 1 Medi 2023